



# Cyngor Cymuned Llandwrog Community Council

## Cofnodion Cyfarfod Fideo y Cyngor Council Video Meeting Minutes

6 Gorffennaf 2020 / 6 July 2020

# **Cyngor Cymuned Llandwrog Community Council**

Cofnodion y cyfarfod fideo o Gyngor Cymuned Llandwrog a gynhaliwyd Nos Lun 6 Gorffennaf 2020. *Minutes of the Video Council Meeting held Monday evening, 6 July 2020.*

Yn bresennol / Present - 9 aelod / 9 members

Yn cynrychioli Ward y Fron – Representing the Ward of Fron

Cyng. Gwyn Owen Jones;

Yn cynrychioli Ward Carmel – Representing the Ward of Carmel

Cyng. Alan Patterson;

Yn cynrychioli Ward Y Groeslon – Representing the Ward of Y Groeslon

Cyng. Alun Wyn Jones; Cyng. Hywel J Owen; Cyng. David C Davies; Cyng. Gerwyn Owen; Cyng. Eddie Willcox

Yn cynrychioli Ward Llandwrog a Dinas Dinlle - Representing the Ward of Llandwrog & Dinas Dinlle

Cyng. Marnel Pritchard; Cyng. Clive Bayley

Hefyd yn bresennol / Also in Attendance-

David Roberts, Rheolwr Gweinyddol a Chyllid y Cyngor / Council's Administrative & Finance Manager  
Cyngorydd Dilwyn Lloyd , Aelod Gyngor Gwynedd / Member of Gwynedd Council

---

## 20-07a-01 **1 Croeso'r Cadeirydd / Chairman's Welcome**

Agorwyd y cyfarfod gan Cadeirydd y Cyngor sef Cyngorydd. Alun Wyn Jones am 8 o'r gloch yr hwyr. Croesawodd pawb i'r cyfarfod. Atgoffwyd pawb o'r trefniadau cynnal cyfarfod fidio.

Trafodwyd gohebiaeth a dderbyniwyd gan Cyng. Eddie Willcox ynglŷn â diffyg gwasanaeth cyfieithu wrth gynnal cyfarfodydd trwy fidio.

Dywedodd y Rheolwr ei fod wedi trafod y mater gydag Ann Llwyd Williams. Adroddwyd ei fod yn bosib cynnal gwasanaeth cyfieithu trwy "Zoom" ond fyddai rhaid i'r Cyngor uwchraddio'r pecyn o "timau bach" sydd yn £11.99 y mis i "pecyn busnes" sydd yn £15.99 y mis - cynnydd o £48 y flwyddyn.

***Penderfynwyd - uwchraddio'r pecyn gyda Zoom i "pecyn busnes"***  
***Resolved – to upgrade the plan with Zoom to "business plan"***

---

## 20-07a-02 **2 Ymddiheuriadau am Absenoldeb / Apologies for Absences**

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriad ymlaen llaw.

---

## 20-07a-03 **3 Datgan Buddiant Personol Neu Fuddiant sydd yn Rhagfarnu gan Aelodau ar y Unrhyw o Personal and Prejudicial Interest by Members on any Items on the Agenda - Section 51 Local Government Act 2000**

Cyng. Hywel J Owen – eitem brys Bryn Golau , Y Groeslon – teulu yn byw yn y cyffiniau  
urgent item regarding Bryn Golau, Y Groeslon - family members living nearby

---

## 20-07a-04 **4 Derbyn Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol a gynhaliwyd 23 Mehefin 2020 fel Rhai Cywir / To Confirm the Minutes of the Previous Meeting held on the 23 June 2020 as a True Record**

Awdurdodwyd y Cadeirydd gan y Cyngor i arwyddo'r cofnodion fel rhai cywir.  
The Council authorised the Chairman to sign the minutes as a true record.

20-07a-05 **5 Materion yn Codi o'r Cofnodion / Matters Arising from the Minutes**

20-07a-06 **Prynu Tabledi i Aelodau – Purchasing Tablets for Members**

Trafodwyd cais gan SW i dderbyn taliad ymlaen llaw sef swm o £3,476.97

Sylwadau Aelodau –

AWJ – nid yw y Rheolau Sefydlog yn rhwystro taliadau ymlaen llaw

DCD - Rheolwr wedi cadarnhau mai SW sydd yn cynnal gwefan Cyngor Llanwnda ac mae ei waith yn cael ei ganmol.

AP - SW wedi bod yn gweithio gyda Chwmni Cynnal ac yn berson dibynadwy

HJO – ydi'r cwmni wedi ei gofrestru gyda TAW. Rheolwr - Ydi

GJO – rhaid ystyried mai cwmni bach, lleol ydi hwn.

EW -beth yw sefyllfa yswiriant? AWJ – dim yswiriant yn y pecyn gan y cwmni. Bydd rhaid i'r Cyngor ystyried cynnwys yr offer yn y pecyn

***Penderfynwyd - rhyddhau'r taliad o £3,476.97 ymlaen llaw i dderbyn yr offer  
Resolved – to release the payment of £3,476.97 before receiving the equipment***

**Polisi ar Gyfer Defnydd yr Offer / Policy for the Use of IT Equipment**

Sylwadau Aelodau –

AWJ - bydd angen polisi mewn lle cyn dosbarthu'r offer i aelodau

GO - Cyngor Gwynedd neu Gyngor Tref , neu Un Llais Cymru gyda pholisi tebyg? Yn cynnig i'r Rheolwr sefydlu polisi cychwynnol .

AWJ – hynny yn ofyn mawr ar y Rheolwr. Yn gofyn i aelodau am gefnogaeth.

***Penderfynwyd – Fod y Rheolwr yn cychwyn ar y gwaith o sefydlu polisi ac ymgynghori gydag aelodau cyn ei gyflwyno i'r Cyngor llawn i'w fabwysiadu***

***Resolved – For the Manager to begin the work of establishing a policy and consulting with members before submitting it to full Council for adoption***

---

20-07a-07 **6 Derbyn Cofnodion y Cyfarfod o Bwyllgor Mynwentydd ac Asedau'r Cyngor a gynhaliwyd 25 Mehefin 2020 fel Rhai Cywir / To Confirm the Minutes of the Cemeteris & Assets Committee Meeting held on the 25 June 2020 as a True Record**

Awdurdodwyd y Cadeirydd gan y Cyngor i arwyddo'r cofnodion fel rhai cywir.  
The Council authorised the Chairman to sign the minutes as a true record.

20-07a-08 **7 Materion yn Codi o'r Cofnodion / Matters Arising from the Minutes**

***Penderfynwyd derbyn argymhelliad y Pwyllgor fel a ganlyn –***

- i) Fod y Cyngor yn gofyn i Jones Brothers am gyflenwad o "plainings" ar gyfer fynwent Bryn'rodyn ac***
- ii) Yn amodol ar ymateb i'r cais uchod fod y Cyngor yn rhaglennu gwaith dros gyfnod o amser i ddisodli'r llechi gyda tharmac newydd ar y llwybrau.***
- iii) Fod y Cyngor yn gofyn am bris i glirio coed a phrysgwydd yn y tair mynwent***

***Resolved – to accept the Committee's recommendation as follows -***

- i) That the Council asks Jones Brothers for a supply of "plainings" for Bryn'rodyn cemetery.***

- ii) Subject to the response to the above request for the Council to program work over a period of time to replace the slates with new tarmac on the paths.*
- iii) That the Council asks for quotes to clear bramble and scrub in three cemeteries*

20-07a-09 **8 Materion yn Codi gan Aelodau**

**Cyng. Dyfed Williams –**

20-07a-10 **Bryn Mor, Dinas Dinlle**

Adroddwyd gan y Cadeirydd, yn absenoldeb Cyng. Dyfed Williams, mai ei bryderon oedd -

- Y math o clientau sydd yn aros yn Bryn Mor gan Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Gwynedd.
- Pryderon am y bobol sydd yn aros yno. Digwyddiadau
- Digwyddiadau gwrth cymdeithasol
- Dim plismona
- Dim asesiad risg o'r oblygiadau lleol o gael pobol sydd hefo problemau yn aros yn Dinas Dinlle

Sylwadau Aelodau –

CB - angen ymateb ffurfiol gan yr asiantaethau i gael fwy o ystyriaeth o'r math o bobol sydd yn cael ei gosod yn Bryn Mor. Angen gofyn i'r Cyngorydd lleol hefyd. Dim CCTV yn yr ardal ac yn bentref anodd i'r heddlu gyrraedd ato ar frys.

AP - Person oedd yn cam-drin plant wedi cael ei osod ar y safle yn y gorffennol. Pwysig fod Cyngor Gwynedd yn asesu'r math o bobl sydd yn aros yno.

GOJ - angen herio Cyngor Gwynedd a oes asesiad risg yn cael ei gynnal o bob unigolyn sydd yn cael ei leoli yno.

DCD - cytuno gyda sylwadau aelodau. Gofyn i Gyngor Gwynedd beth ydi'r asesiad risg ac a'r pa sail mae pobol yn cael ei leoli yno.

HJO - mater yma wedi codi sawl tro yn y gorffennol. Angen llythyru gyda Chyngor Gwynedd a'r heddlu.

MP - llythyru'r Heddlu a Gwasanaeth Prawf Gogledd Cymru

EW - wedi byw yn Dinas Dinlle dros 20 mlynedd yn ôl ac roedd yna bryderon tebyg yn Dinas Dinlle pryd hynny. Yn gofyn tybed a ydi'r sefyllfa yn ymddangos yn waeth oherwydd y cyfyngiadau diweddar?

***Penderfynwyd ar y canlynol-***

- i) Fod y Cyngor yn ysgrifennu at Gyngor Gwynedd gan ofyn beth yw'r asesiad risg sydd wedi cael ei wneud wrth anfon pobol i Bryn Môr?*
- ii) Fod y Cyngor yn llythyru gyda Heddlu Gogledd Cymru a'r Gwasanaeth Prawf Gogledd Cymru ynglŷn mater.*

***The following was resolved –***

- i) That the Council writes to Gwynedd Council asking what risk assessments has been carried out to palce people at Bryn Môr?*
- ii) That the Council writes to North Wales Police and the North Wales Probation Service regarding their concerns.*

## Cyng. Clive Bayley –

### 20-07a-11 **Llwybr 12**

Nodwyd fod y llwybr wedi ei dorri yn ddiweddar. Yn gofyn beth sydd wedi digwydd i'r canclwm oedd yn tyfu ar ymylon y llwybr. Dywedwyd fod rhaid gwaredu y canclwm mewn ffordd gyfrifol a chyfreithiol.

***Penderfynwyd - Rheolwr i ofyn i Ifan ac Idris Williams , ymgwymerwyr y Cyngor am eu sylwadau Resolved – for the Manger to ask Ifan & Idris Williams for their comments.***

### 20-07a-12 **FfensTy Mawr**

Cwynion wedi ei dderbyn fod y ffens uchel sydd wedi ei godi yn ddiweddar gan berchnogion Tŷ Mawr yn beryglus i gerbydau sydd yn dod o Tŷ'n Lon i'r lon fawr oherwydd diffyg gwelededi gyfeiriad Caernarfon.

***Penderfynwyd - dod ar mater i sylw Adran Diogelwch Ffyrdd Cyngor Gwynedd. Resolved – to bring the mater to the attention of the Road Safety Department of Gwynedd Council***

### 20-07a-13 **Tŷ Newydd, Bethesda Bach (Lon Llwyn Gwalch)**

Scottish Power wedi gwneud gwaith yn ddiweddar yn Tŷ Newydd ac wedi gwneud difrod i'r lôn Dylai fod Adran Gwaith Stryd Cyngor Gwynedd wedi bod yn goruchwyllo'r gwaith

***Penderfynwyd dod ar mater i sylw Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd. Resolved – to bring the mater to the attention of the Highway Department of Gwynedd Council***

---

## 20-07a-14 **9 Materion yn Codi gan y Rheolwr**

### 20-07a-15 **Gwasanaeth Torri Gwair oddi fewn Pentrefi - Grass Cutting Service Within the Villages**

Adroddwyd gan y Rheolwr fod cwynion wedi ei dderbyn am gyflwr y gwair oddi fewn y pentrefi. Mae Cyngor Gwynedd wedi datgan y llynedd fod yna dri thoriad wedi ei amserlennu dros y tymor tyfiant.

Adroddwyd gando -

- nad oes yr un toriad wedi ei wneud yng Ngharmel hyd yma.
- safon y gwaith yn wael
- dim rhybudd pan fo'r gwaith yn digwydd
- ddim yn casglu'r gwair hynny wedyn yn cau ffosydd a blocio draeniau

Y Rheolwr yn gofyn i'r aelodau gychwyn y drafodaeth ac i ystyried gwneud cais i Gyngor Gwynedd i drosglwyddo'r gwasanaeth i'r Cynghorau Cymuned yn amodol fod cyllideb yn trosglwyddo drosodd (tebyg i drefniadau sydd yn bodoli gyda cynnal llwybrau cyhoeddus).

Manteision i'r Cynghorau Cymuned gymryd drosodd y gwasaneth -

- cynrychiolwyr pentrefi sydd yn gwybod yr union leoliadau i'w torri
- cynrychiolwyr pentrefi fyddai yn gwybod amlder y toriadau sydd ei angen
- gwell trefn ar gasglu a gwaredu gwair
- Cynghorau Cymuned mewn gwell sefyllaf i hysbysebu trigolion o flaen llaw i gynnal toriadau

Sylwadau Aelodau –

GO - gwair ar hyd ffoes angen ei dorri ger Cae Sarn. Cytuno gyda sylwadau'r rheolwr, tydi'r gwasaneth torri gwair y pentrefi ddim yn dderbyniol

Cyng. Dilwyn Lloyd - wedi cwyno i Steffan Jones am safon y gwasaneth torri gwair. Cyffyrdd yn beryglus oherwydd gwair uchel a diffyg gweledol mewn sawl lleoliad. Cytuno fod y gwasaneth torri gwair yn anfoddhaol

AP - yn awgrymu fod Cyngor Gwynedd wedi datgan nad oes gwasaneth torri gwair yn y pentrefi bellach oherwydd toriadau.

DCD – yn cynnig i'r Rheolwr gysylltu gyda Chynghorau Cymuned Arfon gan ofyn am eu cefnogaeth o'r syniad i Gyngor Gwynedd drosglwyddo cyfrifoldeb am y gwasaneth torri gwair i Gynghorau Cymuned yn amodol fo cyllideb yn trosglwyddo drosodd.

GOJ - ddim yn digwydd dros nos. Angen gwneud gwaith cartref cyn penderfynu yn ffurfiol i ofyn i Gyngor Gwynedd am drosglwyddo'r cyfrifoldeb.

HJO - llawer o gynghorau yn dibynnu ar wirfoddolwyr i wneud gwaith fel torri gwair yn sgil diffyg cyllid. Rheolwr - gwirfoddolwyr ddim yn sylweddoli'r risg oherwydd diffyg yswiriant atebolrwydd

***Penderfynwyd ar y canlynol -***

- i) Fod y Cyngor yn cysylltu gyda Chyngor Gwynedd i ddatgan anfodlonrwydd y Cyngor nad yw y gwair wedi cael ei dorri ac yn anfodlon gyda safon y gwaith.***
- ii) Fod y Cyngor yn cysylltu gyda Cynghorau Cymuned Arfon gan ofyn iddynt am eu sylwadau cefnogaeth i'r syniad o drosglwyddo'r gwasaneth torri gwair i'r Cynghorau Cymuned.***

***The following was resolved -***

- i) That the Council contacts Gwynedd Council to express this Council's dissatisfaction with that the grass has not been cut within the villages and with the standard of the work.***
- ii) That the Council contacts the Community Councils in Arfon asking them for their views & support on the idea of transferring the grass cutting service to the Community Councils***

20-07a-16 **Clwt Foty , Carmel**

Nodwyd gan y Rheolwr

- Cwynion gan drigolion sydd yn byw yn Glwt Foty am gyflwr y safle.
- Cerbydau a darnau o gerbydau wedi ei gadael ger mynedfa Hafoty Wen ers rhai blynnyddoedd
- Rwbwl yn cael ei arllwys yng nghanol y mieri a'r drain – perygl i “Japanese Knotweed” dyfu yno.
- Diffyg gweithrediad gan Adran Gorfodaeth Cyngor Gwynedd i symud y cerbydau
- Rheolwr wedi anfon ffurflen cwyn i CG yn ddiweddar.
- Stad y Goron, perchnogion y tir, wedi rhoi caniatâd i'r Cyngor hwn i gyflawni gwaith ar safle ond ddim am gyfrannu tuag at y costau.
- Stad y Goron wedi caniatáu i Gyngor Gwynedd symud y cerbydau
- Cymdeithas y Porwyr yn ymwybodol o'r broblem ac wedi cysylltu gyda Chyngor Gwynedd dros flwyddyn yn ôl.
- Yn ddyletswydd i'r Cyngor Cymuned weithredu - awgrymu cyflawni gwaith un tro i waredu'r rwbwl, torri'r gwair a thorri'r prysgoed a'r mieri.

Sylwadau Aelodau –

GOJ - Cyng. Bryn Williams wedi dod ar fater i sylw'r Cyngor

AP – dim hawl pori – wedi ei ffensio i ffwrdd felly dim hawl pori

CB - yn cynnig mynd am bris i glirio'r safle, torri'r gwair a'r mieri

***Penderfynwyd - Fod y Cyngor yn gofyn am bris i glirio'r rwbel, torri'r gwair a'r mieri.***

***Resolved – For the Council to ask for quotes to clear the rubble, to cut the grass and bramble***

---

## 20-07a-17 **10 Covid 19 – Effaith ar ein Cymuned / Covid 19 - It's Effect on our Community**

Derbyniwyd yr adroddiadau canlynol –

**Groeslon** - DCD -Ffrindiau Groeslon wedi dosbarthu 129 o becynnau yr wythnos diwethaf. Dosbarthu cinio poeth i nifer o bobol. Hynny yn dod a'r gweithgaredd i ben. Nifer o bobol wedi diolch ac wedi gwerthfawrogi ymdrech y Ffrindiau.

**HJO** - yn ddiolchgar dros ben i'r gwirfoddolwyr

**Llandwrog** - MP - wedi dosbarthu pecynnau pob pythefnos ers cychwyn y cyfyngiadau. Chwe phecyn rŵan wedi ei ddsbarthu. Pobol yn falch iawn o dderbyn y pecynnau ac yn aml iawn yn falch o'r cwmni ac i gael sgwrs. Wedi dod a'r pentref at ei gilydd.

**Carmel** - Rheolwr - Pwyllgor Pentref Carmel wedi hawlio £500 ac wedi dosbarthu 100 o becynnau bwyd i drigolion bregus ac oedrannus y pentref. Nifer fawr o bobol wedi diolch ac wedi gwerthfawrogi

**Fron** – dim i'w adrodd.

Sylwadau Aelodau –

**GOJ** - Cyfyngiadau yn dechrau dod i ben. Angen ystyried beth fyddai'n digwydd os gwelwn ail don o'r firws yn y Gaeaf? Rhywbeth i'r Pwyllgor Cyllid ystyried.

**GO** - Angen casglu gwybodaeth ynglŷn y defnydd o arian y Cyngor. Angen hysbysu'r ffaith mai'r Cyngor Cymuned sydd wedi ariannu'r pecynnau gyda Mantell Gwynedd ac wedi cefnogi'r bobol fregus. Angen pytiau gan bobol sydd wedi derbyn budd. Angen ystyried adroddiad ar y gwefan neu ddatganiad i'r wasg fel bod y cyhoedd yn ymwybodol o'r gwaith sydd wedi ei gyflawni gan y Cyngor Cymuned?.

**HJO** - awgrymu rhoi gwybodaeth ar dudalen "Facebook" pentref Y Groeslon.

**AWJ** - cytuno gyda sylwadau uchod. Yn agored i bob aelod rhoi gwybodaeth ar hysbysfwrdd Facebook . Rheolwr i ddsbarthu manylion y gwariant fesul pentref.

**MP** - angen adroddiad yn Llew. Yn bwysig i drigolion fod yn ymwybodol o gyfraniad y Cyngor hwn

**CB** - angen ystyried at yr ail don yn y Gaeaf. Yn awgrymu gofyn i Un Llais Cymru am arweiniad o sut dylai Cynghorau Cymuned gynllunio at ail don? Hefyd rhoi'r sylw i lythyr Prif Weithredwr Cyngor Gwynedd (dyddiedig 1/7/20) ynglŷn pryderon ail agor yr economi. Gofyn i bob cynrychiolydd pentrefi am adroddiad bras o'r defnydd a waned gyda'r arian.

**DCD** - atgoffa'r aelodau fod Mantell Gwynedd wedi cyfrannu £2,000 at y pecynnau (£1,000 i Landwrog a £1,000 i Groeslon)

**Penderfynwyd – ar y canlynol-**

- i) Fod y Cyngor yn cysylltu gyda chynrychiolwyr y pentrefi sydd wedi derbyn grant gan y Cyngor gan ofyn am adroddiad bras o'r defnydd a wnaed o'r arian.*
- ii) Fod y Rheolwr yn coladu'r wybodaeth ac yn ei ddosbarthu i aelodau cyn y cyfarfod nesaf.*
- iii) Fod y Cyngorwyr yn rhoi gwybodaeth ar hysbysfyrddau pentrefi "Facebook" fel unigolion ac nid ar ran y Cyngor.*

**Resolved —**

- i) That the Council contacts the village representatives who have received funding requesting a brief report on the use made of the grant*
- ii) That the Manager collates the information and distributes it to members before the next meeting.*
- iii) That Councillors put information on "Facebook" village notice boards as individuals and not on behalf of the Council.*

---

20-07a-18 **11 Gwefan Newydd – New Website**

Adroddwyd gan y Rheolwr fod y wefan wedi mynd allan yn fyw tŷ bore hwn. Nifer o ddogfennau angen eu cynnwys – disgwylir y bydd Delwedd wedi cynnwys y dogfennau derbyn diwedd yr wythnos gan Delwedd .

**Sylwadau Aelodau –**

**CB** - gofyn am ddiweddariad am y cyfieithu.

Rheolwr - ALW wedi gwneud y gwaith. Gwallau Saesneg heb eu diweddaru eto gan Delwedd

**Penderfynwyd – derbyn y wybodaeth.**

**Resolved – at accept the information**

---

Gadawodd Cyngorydd Dilwyn Lloyd y cyfarfod cyn cychwyn yr eitem nesaf gan ei fod yn aelod o Bwyllgor Cynllunio Cyngor Gwynedd. Diolchwyd iddo am ei bresenoldeb gan y Cadeirydd.

20-07a-19 **12 Ceisiadau Cynllunio – Planning Applications**

<https://amg.gwynedd.llyw.cymru/planning/index.html?language=cy&fa=search>

20-07a-20 Cais Rhif / Application Number - **C20/0420/17/RA**

Cyfeiriad / Address -

**Coleg GI,3,ynllifon. Llandwrog LL54 5DU**

Bwriad / Proposal -

**Rhyddhau amod rhif 9 (cofnod ffotograffig) ar ganiatâd cyfeirnod C18/0798/17/CR / Discharge condition number 9 (photographic survey) on consent reference C18/0798/17/CR**

**Penderfyniad – dim sylwadau**

**Resolved – no comments**

20-07a-21 Cais Rhif / Application Number - **C20/0404/22/YA**



Cyfeiriad / Address -  
Bwriad / Proposal -

**Tyddyn Perthi, Carmel LL54 7DP**  
**Hysbysiad Ymlaen Llaw i Adeiladau Sied Amaeth/Coed**

**Penderfyniad - gohirio penderfyniad hyd nes y bydd gwybodaeth yn cyrraedd gan yr Adran Cynllunio am leoliad mynediad i'r adeilad.**  
**Resolved - that a decision be deferred pending information from the Planning Department regarding the access to the building.**

#### 20-07a-22 **Hysbysiad o Ymlacio Amodau**

**Ymlacio Amod 6 ar Ganiatâd Cynllunio C18 /1126/17/LL ac Amod 10 ar Ganiatâd Cynllunio C17 /1125/17/LL, Chwarel Moel Tryfan**  
**Cynnydd Dros Dro yn allbwn y chwarel o 5 llwyth i 10-15 Llwyth y dydd er mwyn hwyluso adferiad economaidd a chynnal cyflogaeth leol yn dilyn cyfyngiadau cloi Covid-19**

#### **Notice of Relaxation of Conditions**

**Relaxation of Condition 6 on Planning Consent C18/1126/17/LL and Condition 10 on Planning Permission C17/1125/17/LL, Moel Tryfan Quarry.**  
**Temporary increase in quarry output from 5 loads to 10-15 Loads per day to facilitate economic recovery and sustain local employment following Covid-19 lockout restrictions.**

Trafodwyd y mater fel y nodwyd yn y rhaglen

Nodwyd gan y Cadeirydd fod llythyr wedi ei dderbyn gan trigolyn o'r Fron yn datgan fod yna gynnydd sylweddol yn y llwythi sydd yn dod o Chwarel Bryn Fferam. Nodwyd fod y drwydded yn datgan mai tri llwyth y dydd ydi'r hawl yn unol a'r drwydded.

Adroddwyd fod Cynghorydd Dilwyn Lloyd a'r Rheolwr wedi trafod y mater gyda Swyddog Mwynderau Cyngor Gwynedd. Bydd y swyddog yn cysylltu gyda'r cwmni ac i'w rhybuddio i gadw tu fewn i amodau'r drwydded

Sylwadau Aelodau –

AP – symudiadau wedi lleihau heddiw

DCD - wedi cael achos i gysylltu gyda Chyngor Gwynedd yn ddiweddar oherwydd llechi wedi disgyn o dractor ger cylchfan Pennionyn yn ddiweddar

***Penderfynwyd - fod y Cyngor yn ymddiried yn Swyddogion Cyngor Gwynedd a Chynghorydd Dilwyn Lloyd i drafod gyda'r cwmni ac i'w atgoffa i gadw llwythi ddaw allan o'r chwarel oddi fewn i amodau'r drwydded.***

***Resolved - that the Council entrusts Gwynedd Council Officers and Councillor Dilwyn Lloyd to discuss the matter with the company and remind them to keep the output from the quarry within the permit conditions.***

**Mater Brys – wedi ei godi gan Cyng. Hywel J Owen**

#### 20-07a-23 **Bryn Golau, Y Groeslon (The Ark, Y Groeslon)**

***Penderfynwyd - cynnwys y mater ar y rhaglen nesaf.***

***Resolved – to include the matter on the Agenda for the next meeting.***

20-07a-24 **13 Mater Brys – Llythyr Prif Weithredwr Cyngor Gwynedd – Ail Agor Economi Gwynedd**

Trafodwyd cynnwys y llythyr.

**AWJ** – yn gofyn i aelodau os oes dymuniad ymateb fel Cyngor i'r parodrwydd o fewn lifiad o ymwelwyr.

Sylwadau Aelodau -

**GOJ** - Dinas Dinlle ydi'r lleoliad sydd angen sylw mawr gan Gyngor Gwynedd o safbwynt pellhau cymdeithasol.

**MP** - Mark Drakeford wedi gofyn am sylwadau gan Gymunedau? Oes ydi trigolion y gymuned yn ymateb trwy ddeud nad oes croeso i Saeson yma tydi'r Senedd methu gweithredu felly fawr o bwynt i'w gwestiwn? Problem fwyaf felly ydi'r pellhau cymdeithasol . Yn rhagweld gwrthdaro ac anghytuno rhwng ymwelwyr a phobol leol yn gan fod rheolau Lloegr **yn datgan 1 medr a Chymru 2 fedr**. Yn rhagweld problemau mewn siopau, caffis a thafarndai sydd ar agor yn Lloegr ond ddim yng Nghymru.

**CB** - torri gwair a chadw'r ardal yn daclus. Y llythyr 15 wythnos thŷ hwyr yn cyrraedd. . Beth yw'r **asesiad risg** i agor y toiled yn Dinas Dinlle? Ydi'r asesiad wedi digwydd?

**HJO** - gofyn i CG, unwaith eto, i atal motorhomes rhag parcio dros nos yn Dinas Dinlle. Ffaith nad oes carffosiaeth yn y cerbydau a bod y gwastraff hwn yn cael ei daflu allan yn beryglus iawn.

**AWJ** – angen gofyn i CG beth yw trefniadau sbwriel

**GO** - pa waith mae CG wedi ei wneud gyda chwmnïau carafanau fel Morfa , White Tower er enghraifft i sicrhau cydymffurfiaeth gyda rheolau Cymru gan fod y cwmnïau yma wedi ei sefydlu yn Lloegr sydd gyda rheolau gwahanol.

**AP** – beth yw trefniadau gyda sbwriel

**Penderfynwyd - i'r Rheolwr ymateb y llythyr yn nodi'r sylwadau uchod.**  
**Resolved – for the Manager to reply stating the above comments**

20-07a-25 **14 Taliadau sydd angen eu hawdurdodi gan y Cyngor - Payments to be approved**

Manylion / Details	Swm heb y TAW / Excluding VAT	Swm Hefo TAW- Amount with VAT	Rhif Siec/ Cheque Number
Cyflog y Rheolwr – Mehefin – <a href="#">Managers Salary June</a>	£549.97		Uniongyrchol/Direct
HMRC-Treth Incwm Mehefin – <a href="#">Income Tax June</a>	£151.00		Uniongyrchol/Direct
NEST– Cyfraniad y Cyngor Mehefin / <a href="#">Employers C'btions June</a>	£75.52		Uniongyrchol/Direct
NEST– Cyfraniad y Rheolwr Mehefin / <a href="#">Manager C'btions June</a>	£30.21		Uniongyrchol/Direct
Lwfans y Rheolwr – Mehefin – <a href="#">Managers Allowance June</a>	£24.00		Uniongyrchol/Direct
Whitten Computers – Offer TG a Rheolaeth	£2,897.47	£3,476.97	Uniongyrchol/Direct
Delwedd - cyfeiriad e-bost newydd / new email address	£21.00	£25.20	Uniongyrchol/Direct
SLCC – Aelodaeth 2020-21 Membership	£140.00	£140.00	Uniongyrchol/Direct
ALW – Cyfiethu / Translation	£100.00	£100.00	Uniongyrchol/Direct
Com Laude – cofrestru / registration domain cyngorcymunedllandwrog.cymru 3 mlynedd / 3 years	£162.50	£195.00	Uniongyrchol/Direct

**Penderfynwyd derbyn y wybodaeth a rhoddwyd yr awdurdod i'r Rheolwr i ryddhau'r oll daliadau.**  
**Resolved to accept the information and to authorise the Manager to release all the payments**

**Pwyllgor Cyllid / Finance Committee** - Nos Lun 13 Gorffennaf 2020 / Monday 13 July 2020  
**Cyfarfod Llawn** - Nos Lun 27 Gorffennaf 2020 / Monday 27 July 2020 – cynnwys ar y Rhaglen -  
Llwybrau Dinas Dinlle

**Daeth y cyfarfod i ben am 9:55 yr hwyr / The meeting ended 9:55 pm**

**Cafwyd y Cofnodion yn rhai cywir – The Minutes were recorded as accurate**

**Arwyddwyd gan Gadeirydd y Cyngor**

**Signed by the Chairman**

**Dyddiad - Date**